**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 9 Ionawr 2018 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P Lloyd (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | P M Black | L S Gibbard |
| M H Jones | M B Lewis | R D Lewis |
| P B Smith | A H Stevens | D W W Thomas |
| L J Tyler-Lloyd | T M White | |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Dim

---

## 50 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol:

Y Cynghorydd A H Stevens – Cais Cynllunio 2017/1663/S73 (Eitem 3) – Personol a Rhagfarnol - Aelod o Glwb Rygbi Casllwchwr - gadawodd cyn i'r drafodaeth ddechrau.

Y Cynghorydd D W W Thomas - Cais Cynllunio 2017/1676/FUL (Eitem 4) – Personol – Aelod o Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru (mae'r ymgeisydd yn swyddog yn yr awdurdod).

Y Cynghorydd T M White - Cais Cynllunio 2016/1573 (Eitem 6) – Mae safle'r cais yn fy ward

## 51 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2017 fel cofnod cywir.

## 52 Eitemau i'w gohirio/tynnu'n ôl.

Dim.

## 53 Cadarnhad o Orchymyn Cadw Coed 632, Eglwys Teilo Sant, Pontarddulais.

Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio ac Adfywio adroddiad a oedd yn ceisio cadarnhau, fel gorchymyn llawn, orchymyn dros dro 632 GCC ar dir yn nhir yn Eglwys Teilo Sant, Pontarddulais.

Amlinellwyd y sylwadau a dderbyniwyd ynghylch y cynnig yn yr adroddiad, gan fanylu arnynt.

**Penderfynwyd** cadarnhau Gorchymyn Cadw Coed 632 ar dir yn Eglwys Teilo Sant, Pontarddulais.

## 54 Penderfynu ar Geisiadau Cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Cyflwynwyd cyfres o geisiadau cynllunio ar ran Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas.

Adroddwyd am ddiwygiadau/ddiweddariadau i'r atodlen hon a nodir y rhain isod â (#)

**Penderfynwyd**

1) **Cymeradwyo'r** ceisiadau cynllunio isod yn unol â'r amodau yn yr adroddiad a/neu a nodir isod(#):

(#)**<u>(Eitem 1) Cais Cynllunio 2017/1342/FUL - Adeiladu 11 o anheddau ar wahân ar dir i'r de o 28, Christopher Rise Pontlliw, Abertawe</u>**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Anerchwyd y pwyllgor gan Christine Rowlands (gwrthwynebydd) a Geraint John (asiant).

Anerchwyd y pwyllgor gan y Cynghorydd D G Sullivan (aelod lleol) a siaradodd yn erbyn y cais.

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn:
Derbyniwyd pedwar llythyr o wrthwynebiad a oedd yn codi pryderon am y mathau o anheddau a gynigir, colli preifatrwydd, tir na fydd dan reolaeth yr ymgeisydd, mynediad a thagfeydd traffig.

Bu llythyr hwyr o ddim gwrthwynebiad gan CNC.

Cymeradwywyd y cais yn amodol ar weithred amrywio ar y cytundeb Adran 106 ac yn amodol ar y diwygiadau/amodau isod:

Mae Rheolwr Cadwraeth a Dylunio'r cyngor wedi codi pryderon am leoli safleoedd i'r de mewn perthynas â'r coed wrth gefn y safle. Mae hyn yn debygol o achosi cysgod ac effeithio ar amwynderau preswyl. Dylid symud y garejys a'r lleoedd parcio ar leiniau 1 ac 11 i gefn y lleiniau hyn gan osod ffenestri ochr/drysau patio ychwanegol yn yr ystlysluniau i ganiatáu mynediad i'r gerddi ochr a golygfeydd drostynt a ffenestri

ystafell y gellir byw ynddo yn ystlysluniau lleiniau 1 ac 11 lle y maent yn wynebu'r ffordd.

Er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon hyn, cyflwynwyd cynlluniau diwygiedig sy'n mynd i'r afael â'r materion fel a ganlyn:

*Aildrefnu lleiniau 01 ac 11*

- Symud garejys, i fod ar wahân ac wrth gefn yr eiddo - bydd hyn yn caniatáu mynediad i'r eiddo drwy'r ffordd fynediad newydd yn hytrach na thrwy Christopher Rise, fel a gynigiwyd yn flaenorol;
- Gosod drysau patio ar y llawr gwaelod, sy'n caniatáu mynediad i'r ardd ochr/gefn ar y cefnluniau talcen;
- Gosod ffenestr ar weddlun talcen yn ystafell wely'r 'llawr cyntaf' pob uned fel bod ganddynt olygfa dros y ffordd bengaead, ac ychwanegu elfennau dylunio/diddordeb eraill at y gweddluniau talcen hyn.

*Aildrefnu lleiniau 09 a 10*

- Symud y ddwy lain hon 'ymlaen', h.y. tuag at y ffordd fynediad i'r safle. Byddai hyn yn caniatáu gardd fwy oherwydd maint y coed aeddfed a'r effaith ar y golau/yr amwynderau sydd ganddynt.

- Mewn ymateb i'r diwygiadau hyn, mae'r Rheolwr Cadwraeth a Dylunio wedi nodi bod y cynllun yn mynd i'r afael â gofynion yr Arweiniad Dylunio Preswyl mabwysiedig ac mae'n argymell bod y cynllun yn cael ei gymeradwyo.

- Dylid diwygio'r amodau canlynol o ganlyniad i'r newidiadau hyn:

Rhaid ymgymryd â'r datblygiad yn unol â'r cynlluniau a'r dogfennau cymeradwy canlynol:

- AS17.05.L.00.00 P1 - Cynllun lleoliad y safle (derbyniwyd ar 16 Mehefin 2017);
- AS17.05.L.01.00 P5 - Cynllun safle arfaethedig (derbyniwyd ar 5 Ionawr 2018);
- AS17.05 L.02.10 P4 - Cynlluniau llawr - Math A a B (derbyniwyd ar 5 Ionawr 2018);
- AS17.05 L.02.11 P3 - Cynlluniau llawr - Math B - C a C2 (derbyniwyd ar 5 Ionawr 2018);
- AS17.05 L.02.12 P2 - Cynlluniau llawr - Math B a C (derbyniwyd ar 5 Ionawr 2018);
- AS17.05 L.02.13 P2 - Cynlluniau llawr - Math C2 a D (derbyniwyd ar 5 Ionawr 2018);
- AS17.05 L.02.14 P1 - Garej ar wahân - Math C2 (derbyniwyd ar 5 Ionawr 2018);

AS17.05.L.93.00.P2 - Cynlluniau gwaith allanol (derbyniwyd ar 8 Ionawr 2018);

- AS17.05 L.04.00 P2 - Gweddluniau stryd (derbyniwyd ar 5 Ionawr 2018)
- 21.01 - croestoriad o'r priffyrdd, taflen 1 (derbyniwyd ar 17 Mehefin 2017)
- 21.02 - croestoriad o'r priffyrdd, taflen 2 (derbyniwyd ar 17 Mehefin 2017)
- 2.01 - rhannau hydredol o'r priffyrdd, taflen 1 (derbyniwyd ar 17 Mehefin 2017)

Rheswm: I osgoi amheuaeth a sicrhau cydymffurfio â'r cynlluniau a gymeradwywyd.

Yn amod 4, dylid newid 'cynllun AS17.05L 93.00 P2' i 'cynllun AS17.05L 93.00 P3'.

Yn amod 6, dylid newid 'Cynlluniau AS17.05.L.02.10.P3, AS17.05.L.02.11 P2' i 'Cynlluniau AS17.05.L.02.10.P4 ac AS17.05.L.02.11 P3'

Yn amod 13, dylid newid 'cynllun AS17.05.L.01.00.P4', i 'cynllun AS17.05.L.01.00.P5'

Dylid dileu amod 14 a rhoi'r amod canlynol yn ei le:

14. Er y cynlluniau a gyflwynwyd, ni fydd unrhyw ddatblygiad na gwaith clirio ar y safle yn cychwyn nes y bydd cynllun tirlunio manwl yn cael ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig, a dylai'r cynllun hwn gynnwys rhywogaethau, bylchau ac uchder yr holl blanhigion newydd ar ôl iddynt gael eu plannu. Dylai'r cynllun hefyd gynnwys manylion yr holl goed (gan gynnwys lledaeniad a rhywogaeth) a'r holl wrychoedd sydd ar y tir ar hyn o bryd, gan nodi'r rhai i'w cadw ac amlinellu mesurau ar gyfer eu gwarchod drwy gydol y broses ddatblygu. Caiff yr holl waith plannu, hadu neu dywarchu a nodir yn y cynllun tirlunio a gymeradwyir ei wneud yn ystod y tymhorau plannu a hadu cyntaf yn dilyn defnydd buddiol cyntaf yr adeiladau neu gwblhad y datblygiad, p'un bynnag fydd gyntaf; a chaiff planhigion o faint a rhywogaeth debyg eu plannu yn ystod y tymor plannu nesaf lle bydd unrhyw goed neu blanhigion yn marw, yn cael eu symud neu'n cael eu difrodi'n ddifrifol neu'n afiach o fewn 5 mlynedd o gwblhau'r datblygiad.

(#)**(Eitem 2) Cais Cynllunio 2017/1558FUL - Newid o ddefnydd preswyl (Dosbarth C3) i HMO 6 ystafell wely i 6 pherson (Dosbarth C4) yn 7 Teras Kilvey, St. Thomas, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Anerchwyd y pwyllgor gan y Cynghorwyr C E Lloyd a J Hale (aelodau lleol) a siaradon nhw yn erbyn y cais.

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn:
Cododd un llythyr o wrthwynebiad bryderon am barcio, sŵn ac effeithiau ar y gymuned.

**(#)(Eitem 3) Cais cynllunio 2017/1663/S73 - Amrywio amod 20 caniatâd cynllunio 2014/0306 a roddwyd ar 27/08/2014 i alluogi'r llifoleuadau i weithredu rhwng dydd Llun a dydd Gwener 16:30 - 20:15 ar gae chwaraeon Casllwchwr, Ffordd Cae Duke, Gorseinon, Abertawe**

Darllenodd y cadeirydd lythyr o gefnogaeth gan y Cynghorydd R V Smith (aelod ward gyfagos).

(#)**(Eitem 4) Cais cynllunio 2017/1676/FUL - Annedd ar wahân a garej ar wahân ar dir wrth gefn 101 Heol Llandeilo Ferwallt, Llandeilo Ferwallt, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Anerchwyd y pwyllgor gan Mark Evans (asiant) a Steve Davies (ymgeisydd).

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn:
Diwygio amod 7 fel a ganlyn:
Ni wneir unrhyw waith datblygu'r safle na gwaith clirio coed a llystyfiant nes y cyflwynir Datganiad o Ddull ar gyfer symud y gwrych ac ystyried ymlusgiaid yn ysgrifenedig i'r awdurdod cynllunio lleol a bod hwnnw wedi'u cymeradwyo. Bydd y Datganiad o Ddull yn rhoi manylion ynghylch sut gwneir y symudiad, gan gynnwys manylion am leoliad y derbynle; amseriadau; triniaeth perthi cyn, ac yn syth ar ôl, symud; yr hyn a wneir os bydd y weithdrefn yn methu, etc. Bydd hefyd yn cynnwys gwybodaeth am sut caiff ymlusgiaid eu hystyried yn briodol yn ystod y gwaith a bydd yn ehangu ar egwyddorion sylfaenol Arfarniad Ecolegol Rhagarweiniol a derbyniwyd ar 7 Rhagfyr 2017. Rhoddir y Datganiad o Ddull cymeradwy ar waith yn unol â'r manylion a gymeradwyir trwy hynny.

Rheswm: Sicrhau bod unrhyw rywogaethau anifeiliaid a phlanhigion a chynefinoedd a restrir dan Reoliad Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 yn cael eu gwarchod yn ddigonol, a gwarchod a gwella cymeriad a golwg y safle a'i leoliad yn yr ardal.

**(#)(Eitem 5) Cais Cynllunio 2017/2271/FUL - Datblygiad arfaethedig ar gyfer annedd-dŷ deulawr ar wahân a garej ar wahân yng ngardd The Dingle, Caswell, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Anerchwyd y pwyllgor gan Mr Phillips (gwrthwynebydd) a Geraint John (asiant).

Anerchwyd y pwyllgor gan y Cynghorydd W G Thomas (aelod lleol) a siaradodd yn erbyn y cais.

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn:
Derbyniwyd llythyr hwyr gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg Gwent - mae'r safle ym mharc cofrestredig a gardd The Dingle, ac mae rhan ohono yn AoHNE Gŵyr. Nid ydym yn credu byddai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith andwyol ar unrhyw un o'r dynodiadau hyn. Mae'n annhebygol y ceir gweddillion archaeolegol yn ystod y gwaith. Fodd bynnag, nid yw'r cofnod yn bendant a gellir aflonyddu ar ddeunydd archaeolegol yn ystod y gwaith. Os bydd hyn yn digwydd, cysylltwch yr adran hon o'r Ymddiriedolaeth. Er hynny, fel ymgynghorwyr archaeolegol i'ch aelodau, nid oes gennym wrthwynebiad cyn penderfyniad ar y cais.

**(#)(Eitem 6) Cais cynllunio 2016/1573 - Dymchwel adeiladau/adeileddau presennol ar y safle ac adeiladu llety myfyrwyr pwrpasol (hyd at 706 o ystafelloedd gwely) (Sui Generis) o fewn mynediad arwyddol/cynllun o 5 bloc a pharamedrau graddfa o 4 i 6 llawr gyda 4 uned fasnachol ar lawr gwaelod Bloc 1 (A1/A2/A3 a B1) ac un siop fanwerthu nwyddau cyfleus ar y llawr gwaelod (A1)/1 uned fasnachol (A1/A2/A3 a B1) ym Mloc 2 ar y cyd â defnyddiau cymunedol ategol, gan gynnwys rheoli/golchdy/lolfa (defnyddiau D1 a D2), man parcio/gwasanaethu ceir/beiciau, peirianneg gysylltiedig, draenio, gwaith isadeiledd a thirlunio cysylltiedig (cais amlinellol - holl faterion wedi'u cadw'n ôl) ar dir safle hen laethdy Unigate, Heol y Morfa, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Anerchwyd y pwyllgor gan y Cynghorydd R C Stewart (Arweinydd) a siaradodd i gefnogi'r cais.

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn:
Derbyniwyd un llythyr o wrthwynebiad. Roedd yr ymateb yn codi pryderon cyffredinol am ansawdd pensaernïaeth yr adeilad sy'n wynebu'r afon; mae'r tu blaen i Heol y Morfa'n wynebu priffyrdd - does dim ymdrech i fynd i'r afael â'r strydlun; diffyg cydlyniad gofodol/trefn grid y stryd; does dim cysylltiad amlwg rhwng yr afon a'r stryd a dim ymdeimlad o ansawdd gofodol.

Cymeradwywyd y cais yn amodol ar gytundeb Adran 106 ac ychwanegu "a golau" ar ôl teledu cylch cyfyn yn argymhelliad b) ar d115.

(#)**<u>(Eitem 7) Cynllun cynllunio 2017/1948/FUL - Datblygu 61 o anheddau gyda mannau agored cysylltiedig, tirlunio, trefniadau mynediad, gwaith isadeiledd a pheirianneg cysylltiedig ar dir oddi ar Lôn Summerland, Newton, Abertawe</u>**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Anerchwyd y pwyllgor gan Graham Carlisle (a oedd yn cynrychioli gwrthwynebiadau Cyngor Cymuned y Mwmbwls) a Gareth Williams (asiant).

Anerchwyd y pwyllgor gan y Cynghorydd W G Thomas (aelod lleol) a siaradodd yn erbyn y cais.

Anerchwyd y pwyllgor gan y Cynghorydd R Francis-Davies (Aelod y Cabinet) a siaradodd i gefnogi'r cais.

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn:
Mae'r frawddeg olaf ar dudalen 125 yn anghywir gan ei bod yn nodi y derbyniwyd deiseb o wrthwynebiad sy'n cynnwys 96 o lofnodion. Dylai'r frawddeg olaf nodi'r canlynol:
"Derbyniwyd wythdeg dau (82) o lythyrau o wrthwynebiad a deiseb o wrthwynebiad sy'n cynnwys 132 o lofnodion, wedi'i llofnodi gan bobl o 93 o dai unigol."

Derbyniwyd dau lythyr hwyr o wrthwynebiad ychwanegol - pryderon ychwanegol a godwyd:
Tanc carthion presennol yn eiddo cymydog - nid yw'r ymgeisydd wedi cysylltu â'r preswylydd o gwbl ac nid yw'r preswylydd wedi gweld unrhyw gynigion i sicrhau y bydd carthffosiaeth yn parhau i gael ei gwaredu o'r eiddo; pwy sy'n elwa - nid y preswylwyr; ardaloedd hamdden bach iawn: nid oes unrhyw ardaloedd hamdden o fewn 2km. Adeilad dwysedd uchel: 2 i 3 gwaith mwy dwys na'r ardal o'i gwmpas; posibilrwydd o lygru carthffosiaeth/dŵr wyneb; nid oes unrhyw sôn am barcio yn ystod yr haf - Rhodfa Caswell a'r ardaloedd cyfagos yn orlawn â pharcio i fynd i'r traeth. Rhennir mynediad trac sengl ar Lôn Summerland gan breswylwyr presennol a chymuned y byngalos yng Nghoed yr Esgob; tai fforddiadwy - sut y cynhelir hyn;

nid yw'r ardal yn ymarferol ar gyfer beicio oherwydd topograffi; gwasanaeth bysus gwael iawn.

Mae'r cais yn amodol ar gytundeb Adran 106

## 55 Cynllun mynediad cefn gwlad.

Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio ac Adfywio adroddiad a amlinellodd yr angen i ddarparu Cynllun Mynediad i Gefn Gwlad wedi'i ddiweddaru a'i adolygu.

Bydd y cynllun bellach yn amodol ar broses ymgynghori cyhoeddus 12 wythnos.

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn:
Dylid diwygio paragraff 5 i nodi:

**5. Goblygiadau Cyfreithiol**

5.1 O dan Adran 60 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, mae'n rhaid i'r awdurdod benderfynu a yw am lunio Cynllun Mynediad i Gefn Gwlad (Cynllun Gwella Hawliau Tramwy) diwygiedig neu beidio, ac yna naill ai cyhoeddi cynllun newydd neu ddarparu adroddiad sy'n esbonio pan nad oes angen diwygiadau.

**Penderfynwyd** bydd yr awdurdod yn adolygu ac yn diweddaru Cynllun Mynediad i Gefn Gwlad 2007-17 ac yn ymgynghori ar gynllun drafft ar gyfer y deng mlynedd nesaf.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.57 pm

**Cadeirydd**